Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol

Rebecca Evans AS
y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

---

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Rebecca a Jeremy,

**Is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE**

Rydym yn ymwybodol ei bod yn debygol y bydd toreth o is-ddeddfwriaeth cyn diwedd y flwyddyn gan fod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Yn ei ddatganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf, dywedodd y Prif Weinidog:

> "Bydd angen corff sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r UE o hyd yn ystod yr hydref eleni. Mae hyn yn cynnwys gwaith i weithredu cyfraith yr UE sy'n dod i rym yn ystod y flwyddyn hon, er mwyn sicrhau bod cyfraith yr UE a gadwyd yn ôl yn gweithio ar ddiwedd y cyfnod pontio, a gweithredu cyfundrefnau newydd sy'n deillio o'r ffaith ein bod yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. (…)
>
> Yn yr amgylchiadau gorau hyn, bydd heriau gwirioneddol o ran ymateb i gyflymder a chymhlethdod deddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit yn yr hydref lle bydd y Senedd yn dal i fod yn ymdrin â chanlyniadau iechyd ac economaidd y pandemig, y broses gyllidebol flynyddol a hyd yn oed gofynion y rhaglen ddeddfwriaethol fwy cyfyngedig (…)
>
> Os bydd yr hydref yn gweld y coronafeirws yn dychwelyd ynghyd â math dwys o ffliw tymhorol, yna bydd rheoli deddfwriaeth Brexit ochr yn ochr â phopeth arall yn heriol iawn."

Yng nghyd-destun y datganiad hwn ac at ddibenion cynllunio ein gwaith ar gyfer y misoedd nesaf, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ni o ran faint o is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE fydd yn debygol o gael ei gwneud cyn 31 Rhagfyr 2020. Fel y soniodd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad, byddai'n ddefnyddiol i ni gael gwybodaeth am yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn ofynnol "i

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

weithredu cyfraith yr UE sy'n dod i rym yn ystod y flwyddyn hon, er mwyn sicrhau bod cyfraith yr UE a gadwyd yn ôl yn gweithio ar ddiwedd y cyfnod pontio, a gweithredu cyfundrefnau newydd sy'n deillio o'r ffaith ein bod yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd".

Byddem yn ddiolchgar o gael y diweddariad hwn erbyn wythnos gyntaf mis Medi i'n helpu i lywio ein cynlluniau ar gyfer tymor yr hydref.

Yn ychwanegol at hyn, hoffem eich gwahodd i drafod y materion hyn ymhellach yn ystod ein cyfarfod a gynhelir ar fore 28 Medi. Byddai'r sesiwn hon hefyd yn cynnwys craffu ar y Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor sydd ar ddod, i'w wneud o dan adran 109 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Rydym yn deall y bydd hyn ceisio diwygio Atodlenni 7A a 7B i Ddeddf 2006 ac rydym yn deall y byddant yn cael eu gosod gerbron y Senedd ddechrau mis Medi.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a ydych ar gael ar gyfer y sesiwn hon cyn gynted ag y gallwch.

Yn gywir



Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English